CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU
Tystysgrif Addysg Gyffredinol
Uwch Gyfrannol/Uwch

WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE
General Certificate of Education
Advanced Subsidiary/Advanced

338/51

# SEICOLEG – PSY2

## SEICOLEG: ASTUDIAETHAU CRAIDD A DULLIAU YMCHWIL CYMHWYSOL

P.M. DYDD MAWRTH, 22 Mai 2007

(1½ awr)

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfryn ateb 12 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch **bob** cwestiwn yn Adran A **ac** Adran B.

Atebwch **un** cwestiwn yn Adran C.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Dangosir dyraniad y marciau mewn cromfachau.
Sylwch ar y wybodaeth a roddir ar ddechrau pob Adran.
Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

## ADRAN A

*Atebwch **bob** cwestiwn yn yr adran hon.*
*Atgoffir chi y dylai eich ymateb ganolbwyntio ar sgìl gwybodaeth a dealltwriaeth.*

**1.** Disgrifiwch ganlyniadau a chasgliadau ymchwil Milgram (1963), 'Astudiaeth ymddygiadol o ufudd-dod' ('*Behavioural study of obedience*'). [8]

**2.** Amlinellwch ddulliau gweithredu ymchwil Rahe ac eraill (1970), 'Rhagfynegi newid mewn iechyd yn y dyfodol agos o newidiadau blaenorol ym mywyd y gwrthrych' ('*Prediction of near-future health change from subject's preceding life changes*'). [8]

**3.** Disgrifiwch ganlyniadau a chasgliadau ymchwil Buss (1989), 'Gwahaniaethau yn ôl rhyw yn y dewis o gymar gan fodau dynol' ('*Sex differences in human mate preferences*'). [8]

## ADRAN B

*Atebwch **bob** cwestiwn yn yr adran hon.*
*Atgoffir chi y dylai eich ymateb ganolbwyntio ar sgìl dadansoddi a gwerthuso.*

**4.** Gwerthuswch ymchwil Bowlby (1944), 'Pedwar deg pedwar o ladron ifanc: eu cymeriadau a'u bywyd cartref' ('*Forty-four juvenile thieves; their characters and home-life*'). [8]

**5.** Aseswch yn feirniadol ymchwil Loftus a Palmer (1974), 'Ail-lunio dinistrio ceir: enghraifft o'r rhyngweithiad rhwng iaith a'r cof' ('*Reconstruction of automobile destruction: an example of the interaction between language and memory*'). [8]

**6.** Gwerthuswch ymchwil Sperry (1968), 'Datgysylltu hemisfferau ac undod mewn arwybod ymwybodol' ('*Hemisphere deconnection and unity in conscious awareness*'). [8]

## ADRAN C

*Atebwch **naill ai** cwestiwn 7 **neu** gwestiwn 8.*
*Atgoffir chi y dylai eich ymateb ganolbwyntio ar gymhwyso gwybodaeth am ddulliau ymchwil at sefyllfa newydd.*

**Naill ai,**

**7.** Gofynnwyd i chi ymchwilio i'r cwestiwn a yw faint o heulwen y mae pobl yn ei brofi yn effeithio ar eu hiechyd seicolegol.

Trafodwch sut y byddech chi'n cynnal ymchwil yn y maes hwn, gan egluro cynllun yr ymchwil o ran dull; dibynadwyedd neu ddilysrwydd; materion moesegol; ffyrdd o ddelio â'r materion moesegol hynny; technegau samplu; a dulliau dadansoddi. [12]

**Neu,**

**8.** Gofynnwyd i chi ymchwilio i'r cwestiwn a yw pobl ddeallus iawn yn darllen mwy o lyfrau na'r bobl hynny sydd â deallusrwydd canolig neu isel.

Trafodwch sut y byddech chi'n cynnal ymchwil yn y maes hwn, gan egluro cynllun yr ymchwil o ran dull; dibynadwyedd neu ddilysrwydd; materion moesegol; ffyrdd o ddelio â'r materion moesegol hynny; technegau samplu; a dulliau dadansoddi. [12]